Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Swyddog Cyswllt (Hwyluso STEM) Hybiau HiVE**

**Lleoliad:** **Gweithio Ystwyth**

**Cyfarwyddiaeth:** **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol**

**Rhif Swydd:** **BGNEW**

**Cyflog:** **Gradd 5 (£27,334 - £30,296 y flwyddyn)**

**Oriau:** **37 awr yr wythnos**

**Contract:** **Cyfnod Penodol tan fis 31 Mawrth 2025**

**Crynodeb Swydd**

Ydych chi'n angerddol am STEM, ac archwilio cyfleoedd a meithrin cysylltiadau cryf a pharhaol rhwng busnesau ac ysgolion i hyrwyddo'r agenda hon? Gallai hon fod y rôl ddelfrydol i chi.

Cefnogi rhaglen arloesol o addysg peirianneg sy'n canolbwyntio ar "ddiwydiant mewn ysgolion, hwyluso STEM" o fewn ysgolion ym Mlaenau Gwent mewn partneriaeth â Choleg Gwent

Creu cysylltiadau ystyrlon a chynaliadwy rhwng Coleg Gwent ac ysgolion cyfranogol ym Mlaenau Gwent i gefnogi profiadau dysgu ysbrydoledig o ansawdd uchel; sy'n cyd-fynd â chyfleoedd dilyniant yn y dyfodol yn HiVE.

Mae'r prosiect Hwyluso STEM yn canolbwyntio ar raglen gydlynol wedi'i thargedu o "ddiwydiant mewn ysgolion" yn ysgolion Blaenau Gwent, gan godi dyhead, cyrhaeddiad a pharatoi disgyblion ar gyfer eu taith i fyd gwaith.

Trwy ddull partneriaeth cryf, bydd y prosiect yn ceisio codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a sgiliau ymhlith plant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach; i ymgysylltu'n gadarnhaol â nhw ac yn y pen draw gynyddu dyhead a chyrhaeddiad mewn perthynas â STEM yn bennaf.

Ymgysylltu â busnesau i sicrhau bod eu cyfranogiad yn un o ofynion allweddol y prosiect; gan ddarparu profiadau dysgu dilys; a bod mentrau yn cyd-fynd ag anghenion cyflogaeth a sgiliau busnes wrth symud ymlaen, yn ogystal â rhai'r ysgolion a'r disgyblion.

Fel rhan o'r prosiect hwn, mae cyfle cyffrous wedi cofi yn ein tîm Adfywio i Swyddog Cyswllt Hwyluso STEM ar gyfer yr unigolyn cywir sy'n gallu dangos creadigrwydd a sgiliau cyfathrebu a chydberthnasau cryf.

**Hysbyseb Lawn**

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o ymgymryd â rolau tebyg a gweithio mewn lleoliadau tebyg, a diddordeb angerddol yn y maes gwaith hwn.

Mae'r Prif Gyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Datblygu a chynnal cydberthnasau effeithiol gydag ysgolion a'r gymuned fusnes ym Mlaenau Gwent.

2. Gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng Cyngor Blaenau Gwent, sectorau busnes allweddol a rhanddeiliaid eraill wrth hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth/sgiliau lleol (nawr ac yn y dyfodol).

3. Ymgysylltu â busnesau i nodi gofynion cyflogaeth/bylchau sgiliau cysylltiedig; a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith o gyflawni'r prosiect, gan baratoi preswylwyr (plant a phobl ifanc) ar gyfer darpar gyfleoedd.

4. Defnyddio a chynnal cronfa/cronfeydd data a/neu CRMs priodol i dracio cynnig/gofynion busnes a chroesgyfeirio ag angen/darpariaeth rhanddeiliaid (e.e. unigolion, ysgolion, asiantaethau cyflogaeth); monitro canlyniadau cysylltiedig.

5. Gweithio gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys Gyrfa Cymru) i baratoi preswylwyr (plant, pobl ifanc) i ddiwallu anghenion cyflogaeth a nodir nawr ac yn y dyfodol.

6. Cydlynu a hwyluso cysylltiadau rhwng y gymuned fusnes a defnyddwyr gwasanaeth; defnyddio dulliau arloesol a diddorol.

7. Trefnu, cyflwyno a mynychu digwyddiadau a gweithgareddau; annog busnesau i ymgysylltu, cyfranogi'n weithredol ac ymrwymo lle bo hynny'n berthnasol.

**Cynhelir prosesau sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **30th May 2024**

**Dyddiad Cyfweliad:** **w/c 10th June 2024**